View in browser

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Croeso i'n cylchlythyr | Welcome to our newsletter

Cylchlythyr Medi 2026 | Newsletter September 2026

## Cyfarwyddwr y TAR | Director of the PGCE

### Diweddariad y Cyfarwyddwr

Wrth i ni ddechrau blwyddyn academaidd newydd, hoffem estyn croeso cynnes iawn yn ôl i'n holl ysgolion partner a'n cydweithwyr ar draws Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored.

Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth, eich ymroddiad a'ch ymrwymiad parhaus i addysg athrawon. Mae'r arweiniad, yr arbenigedd a'r anogaeth a ddarperir gan gydweithwyr yn ein hysgolion partner yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi ein hathrawon dan hyfforddiant wrth iddynt ddatblygu eu hyder, eu gwybodaeth a'u hymarfer proffesiynol.

Wrth edrych ymlaen at dymor yr hydref, rydym yn gyffrous i groesawu athrawon dan hyfforddiant newydd a rhai sy'n dychwelyd, ac i barhau i weithio'n agos gydag ysgolion ledled Cymru. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall o gydweithio, dysgu ar y cyd a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o athrawon.

### Director's update

As we begin a new academic year, we would like to extend a very warm welcome back to all of our partner schools and colleagues across the OU ITE Partnership.

We are incredibly grateful for your continued support, dedication and commitment to teacher education. The guidance, expertise and encouragement provided by colleagues in our partner schools play a vital role in supporting our student teachers as they develop their confidence, knowledge and professional practice.

As we look ahead to the autumn term, we are excited to welcome both new and returning student teachers and to continue working closely with schools across Wales. We look forward to another successful year of collaboration, shared learning and supporting the next generation of teachers.

Diolch am fod yn rhan mor bwysig o'n partneriaeth. Dymunwn ddechrau cadarnhaol a llwyddiannus i'r flwyddyn academaidd newydd i chi i gyd, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi drwy gydol 2026/27.

**Gyda phob dymuniad da,**

**Dr Sarah Stewart**
Cyfarwyddwr TAR Cymru

**Richard Hatwood**
Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Holl Saint

Thank you for being such an important part of our partnership. We wish you all a positive and successful start to the new academic year and look forward to working with you throughout 2026/27.

**With best wishes,**

**Dr Sarah Stewart**
Director of the PGCE Wales

**Richard Hatwood**
Headteacher, All Saints' Primary

# Newyddion rhaglen | Programme news



## Dathlu Enillwyr ein Gwobrau Mentoriaid

Mae ein mentoriaid yn chwarae rhan mor bwysig yn natblygiad a llwyddiant ein hathrawon dan hyfforddiant. Mae eu harweiniad, eu hanogaeth, eu harbenigedd a'u haelioni yn gwneud gwahaniaeth parhaol drwy gydol y daith TAR.

## Celebrating Our Mentor Award Winners

Our mentors play such an important role in the development and success of our student teachers. Their guidance, encouragement, expertise and generosity make a lasting difference throughout the PGCE journey.

Rydym wrth ein bodd yn dathlu **enillwyr ein Gwobrau Mentoriaid eleni**, a enwebwyd gan ein hathrawon dan hyfforddiant i gydnabod y gefnogaeth eithriadol y maent wedi'i darparu. ▯

## ▯ Gwobr Y Filltir Ychwanegol

**Enillydd: Kelly Roberts**
*Enwebwyd gan Paula Smith – Athrawes dan Hyfforddiant Cynradd Blwyddyn 1*

Cafodd Kelly ei chydnabod am fynd y gwobr Y Filltir Ychwanegol yn gyson i gynnig arweiniad, anogaeth a chefnogaeth. Hyd yn oed cyn iddi ddod yn fentor Paula yn swyddogol, roedd hi bob amser yn barod i helpu. Ar ôl ymgymryd â'r rôl, croesawodd Paula yn gynnes i'w dosbarth Meithrin ac addasodd y drefn ddyddiol er mwyn sicrhau ei bod yn cael y profiad mwyaf gwerthfawr posibl.

Er gwaethaf llwyth gwaith eithriadol o brysur, roedd Kelly bob amser yn gwneud amser i gynnig cefnogaeth a chyngor. Mae ei phroffesiynoldeb, ei hymroddiad a'i hagwedd gadarnhaol wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig, ac yn ystod cyfnodau heriol, helpodd ei hanogaeth Paula i ddatblygu ei hyder, cynnal cydbwysedd iach rhwng gwaith, astudio a bywyd, a pharhau i weithio tuag at ei nodau.

▯ *"Mae ei hanogaeth wedi cynyddu fy hyder yn sylweddol ac wedi fy helpu i sylweddoli ei bod yn bosibl cyflawni fy nodau."*

**Llongyfarchiadau, Kelly! ▯**

## ▯ Gwobr Cefnogaeth Broffesiynol Eithriadol

**Enillydd: Cennydd Amos – Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**
*Enwebwyd gan Medi Jones – Athrawes dan Hyfforddiant Blwyddyn 2*

We are delighted to celebrate this year's **Mentor Award winners**, nominated by our student teachers in recognition of the exceptional support they have provided. ▯

## ▯ Extra Mile Award▯

**Winner: Kelly Roberts**
*Nominated by Paula Smith – Year 1 Primary Student Teacher*

Kelly was recognised for consistently going above and beyond to provide guidance, encouragement and support. Even before officially becoming Paula's mentor, she was always willing to help, and once taking on the role, she warmly welcomed Paula into her Nursery classroom and adapted routines to ensure she gained the most valuable experience possible.

Despite an exceptionally busy workload, Kelly always made time to offer support and advice. Her professionalism, dedication and positive attitude have been truly inspiring, while her encouragement during challenging periods helped Paula develop her confidence, maintain a healthy work-study-life balance and continue working towards her goals.

▯ *"Her encouragement has significantly increased my confidence and helped me realise that achieving my goals is possible."*

**Congratulations, Kelly! ▯**

▯ Outstanding Professional Support Award

**Winner: Cennydd Amos – Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**
*Nominated by Medi Jones – Year 2 Student Teacher*

Over the past two years, Cennydd has been an incredible subject mentor. He has always been there to offer support, whether that has involved practising difficult experiments, going through lessons in detail in preparation for observations, or

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae Cennydd wedi bod yn fentor pwnc anhygoel. Mae wedi bod yno bob amser i gynnig cefnogaeth, boed hynny drwy ymarfer arbrofion anodd, mynd drwy wersi'n fanwl wrth baratoi ar gyfer arsylwadau, neu helpu i ddatblygu gwybodaeth bynciol mewn cemeg a bioleg.

Mae ei gefnogaeth, ei amser a'i arbenigedd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy gydol y ddwy flynedd.

□ *"Hebddo, byddai'r ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn llawer anoddach!"*

**Llongyfarchiadau, Cennydd! □**

## □ Gwobr y Mentor a Wnaeth y Gwahaniaeth Mwyaf

**Enillydd: Miss Trudie Griffiths – Ysgol Gynradd Gatholig St Gabriel's, Casnewydd**
*Enwebwyd gan Lyndsey Foster – Athrawes dan Hyfforddiant Cyflogedig Blwyddyn 1*

Enwebwyd Trudie am yr effaith anhygoel y mae wedi'i chael ar ddatblygiad personol a phroffesiynol Lyndsey drwy gydol blwyddyn gyntaf ei TAR.

Mae ei mentora a'i chefnogaeth wedi bod yn ddiwyro. Mae wedi creu amgylchedd cefnogol, modelu arfer addysgu rhagorol, darparu adborth clir ac adeiladol, ac annog Lyndsey i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r gwydnwch sydd eu hangen i ddod yr athrawes orau y gall fod.

Mae amynedd, caredigrwydd a diddordeb gwirioneddol Trudie yng nghynnydd Lyndsey wedi gwneud gwahaniaeth parhaol, yn enwedig wrth i Lyndsey gydbwyso gofynion astudio, gweithio a magu teulu.

□ *"Mae fy hyder a'm gwydnwch wedi tyfu'n sylweddol diolch i'w chred yn fy mhotensial fel athrawes. Byddaf yn*

helping to develop subject knowledge in chemistry and biology.

His support, time and expertise have made a real difference throughout the two years.

□ *"Without him, the past two years would have been much more difficult!"*

**Congratulations, Cennydd! □**

## □ Mentor Who Made the Biggest Difference Award

**Winner: Miss Trudie Griffiths – St Gabriel's RC Primary School, Newport**
*Nominated by Lyndsey Foster – Year 1 Salaried Student Teacher*

Trudie was nominated for the phenomenal impact she has had on Lyndsey's personal and professional development throughout the first year of her PGCE.

Her mentoring and support have been unwavering. She has created a supportive environment, modelled outstanding teaching practice, provided clear and constructive feedback and encouraged Lyndsey to develop the skills, confidence and resilience needed to become the best teacher she can be.

Trudie's patience, kindness and genuine investment in Lyndsey's progress have made a lasting difference, particularly while Lyndsey has balanced the demands of studying, working and raising a family.

□ *"My confidence and resilience have grown significantly thanks to her belief in my potential as a teacher. I will be forever thankful to have been mentored by her."*

**Congratulations, Trudie! □**

## □ A huge thank you to all our mentors

*ddiolchgar am byth fy mod wedi cael y cyfle i gael fy mentora ganddi."*

**Llongyfarchiadau, Trudie!**

### Diolch enfawr i'n holl fentoriaid

Hoffem hefyd achub ar y cyfle hwn i ddiolch i **bob un o'n mentoriaid ar draws Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored** am yr amser, yr arbenigedd a'r anogaeth rydych yn eu rhoi i'n hathrawon dan hyfforddiant.

Mae'r enwebiadau a dderbyniwn yn ein hatgoffa pa mor fawr yw'r gwahaniaeth y gall mentor rhagorol ei wneud. Diolch am bopeth rydych yn ei wneud i gefnogi, ysbrydoli a datblygu'r genhedlaeth nesaf o athrawon.

We would also like to take this opportunity to thank **all of our mentors across the Open University ITE Partnership** for the time, expertise and encouragement you give to our student teachers.

The nominations we receive are a wonderful reminder of just how much of a difference an excellent mentor can make. Thank you for everything you do to support, inspire and develop the next generation of teachers.

## Mynd ati i Ddysgu eich Gwers Gyntaf fel Athro Newydd | Approaching Your First Lesson as a New Teacher

Sut deimlad yw addysgu eich gwers gyntaf mewn gwirionedd – a beth all helpu i wneud y camau cyntaf hynny ychydig yn llai brawychus?

Yn ein herthygl **Llais** ddiweddaraf, mae **Lisa MacPherson**, un o raddedigion TAR, a'i mentor **Daniel Sykes** yn rhannu eu profiadau a chyngor ymarferol i athrawon dan hyfforddiant sy'n paratoi i sefyll o flaen dosbarth.

O **arsylwi athrawon profiadol a dechrau'n fach**, i **feithrin hyder, datblygu eich arddull addysgu eich hun a gwneud y gorau o gefnogaeth mentoriaid a'r ysgol**, mae eu myfyrdodau'n cynnig cyngor gwerthfawr i athrawon dan hyfforddiant ar draws pob pwnc.

Llwyddodd Lisa i ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn haf 2026 ac mae bellach wedi sicrhau ei swydd addysgu gyntaf mewn adran fathemateg – llongyfarchiadau, Lisa!

What does it really feel like to teach your first lesson – and what can help make those first steps a little less daunting?

In our latest **Llais** feature, PGCE graduate **Lisa MacPherson** and her mentor **Daniel Sykes** share their experiences and practical advice for student teachers preparing to step in front of a class.

From **observing experienced teachers and starting small**, to **building confidence, developing your own teaching style and making the most of mentor and school support**, their reflections offer valuable advice for student teachers across all subjects.

Lisa successfully gained QTS in summer 2026 and has now secured her first teaching role in a mathematics department – congratulations, Lisa!

**Read the full article on Llais**

[Darllenwch yr erthygl lawn ar Llais]

# A allai eich ysgol elwa o ddarpar athro rhagorol? | Could your school benefit from an outstanding student teacher?



Ydych chi'n edrych i wella'ch tîm addysgu gydag darpar athro ymroddedig a brwdfrydig mewn pwnc uwchradd blaenoriaethol? Mae Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) y Brifysgol Agored yn cynnig cyfle gwych i ysgolion elwa o'n darpar athrawon rhagorol.

**Mae uchafbwyntiau'n cynnwys:**

- **Grant Cyflog o 50% neu 100%:** Mae ysgolion yn derbyn grant cyflog yn erbyn pwynt 1 o'r raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso, a delir am hyd y rhaglen.
- **Cyfraniad Mentora Arbenigol:** Mae Partneriaeth OU ITE yn cyfrannu at gostau mentora, gan sicrhau bod ysgolion yn derbyn cymorth ariannol, a chyda lleoliadau myfyrwyr lluosog, mae dyraniadau taliadau yn cynyddu yn unol â hynny i adlewyrchu'r cyfrifoldebau mentora ychwanegol.

Are you looking to enhance your teaching team with a dedicated and motivated student teacher in a priority secondary subject? The Open University Initial Teacher Education (ITE) Partnership is offering an excellent opportunity for schools to benefit from our outstanding student teachers.

**Highlights include:**

- **50% or 100% Salary Grant:** Schools receive a salary grant against point 1 of the unqualified teacher pay scale, paid for the duration of the programme.
- **Expert Mentoring Contribution:** The OU ITE Partnership contributes towards mentoring costs, ensuring schools receive financial support, and with multiple student placements, payment allocations increase accordingly to reflect the additional mentoring responsibilities.

- **Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol:** Mynediad at Ddysgu Proffesiynol Parhaus (DPP), prosiectau ymchwil, a datblygu mentora/hyfforddi.

**Ymunwch â'n Gweledigaeth:** Bod yn rhan o bartneriaeth sydd wedi ymrwymo i gynhwysiant cymdeithasol, cyfiawnder, a thegwch, gan gefnogi arallgyfeirio'r gweithlu a recriwtio wedi'i dargedu mewn pynciau blaenoriaeth.

### ▯ A Allai Eich Ysgol Gefnogi Athro dan Hyfforddiant?

Ochr yn ochr â'n cyfleoedd llwybr cyflogedig, rydym hefyd yn chwilio am ysgolion ledled Cymru a allai gefnogi ein hathrawon dan hyfforddiant drwy:

- ▯ **Lleoliadau TAR rhan-amser** – gan ddarparu profiad gwerthfawr mewn ysgol a mentoriaeth i'n hathrawon dan hyfforddiant.
- ▯ **Lleoliadau Profiad Ail Ysgol TAR Cyflogedig** – gan gefnogi athrawon dan hyfforddiant cyflogedig i gael profiad mewn ysgol wahanol fel rhan o'u rhaglen.

**Nid oes unrhyw gost i'r ysgol am gynnal y lleoliadau hyn,** ac mae Partneriaeth AGA y Brifysgol Agored yn darparu cyfraniad ariannol tuag at gostau mentora.

▯ **A allai eich ysgol gefnogi lleoliad?**
Cwblhewch y Ffurflen **Microsoft isod** i roi gwybod i ni pa gyfleoedd y gallai eich ysgol eu cynnig.

[Ffurflen Cynnig Lleoliadau 2026/27 - Offer of Placement Form – Fill in form]

- **Professional Development Opportunities:** Access to Continuing Professional Learning(CPL), research projects, and mentoring/coaching development.

**Join Our Vision:** Be part of a partnership committed to social inclusion, justice, and equity, supporting workforce diversification and targeted recruitment in priority subjects.

### ▯ Could Your School Support a Student Teacher?

Alongside our salaried route opportunities, we are also looking for schools across Wales that could support our student teachers through:

- ▯ **Part-time PGCE placements** – providing valuable school-based experience and mentoring for our student teachers.
- ▯ **Salaried PGCE Second School Experience placements** – supporting salaried student teachers to gain experience in a different school setting as part of their programme.

**There is no cost to the school for hosting these placements**, and the OU ITE Partnership provides a **financial contribution towards mentoring**.

▯ **Could your school support a placement?**
Please complete the **Microsoft Form below** to let us know what opportunities your school may be able to offer.

[Ffurflen Cynnig Lleoliadau 2026/27 - Offer of Placement Form – Fill in form]

## Cymeradwyo myfyriwr ar gyfer Medi 2026 | Endorse a student for September

**2026**



Ar hyn o bryd mae gennym fyfyrwyr mewn **Mathemateg**, **Gwyddoniaeth**, a **Saesneg** sydd yn chwilio am gyfleoedd yn eich ysgol chi! Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ar TAR-Cymru@open.ac.uk.

**Buddion i Fyfyrwyr**

✔ Wedi'u cynllunio ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu, Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch, a Thechnegwyr sydd eisoes yn gweithio mewn ysgolion.

✔ Hyfforddiant hyblyg — ennill cyflog wrth astudio.

✔ Grant hyfforddi gan Lywodraeth Cymru i gefnogi costau astudio.

**Buddion i Ysgolion**

✔ Grantiau cyflog ar gael i ysgolion uwchradd a cynradd

✔ Mynediad at ddatblygiad proffesiynol, prosiectau ymchwil, mentora a hyfforddi.

✔ Yn helpu ysgolion i amrywio eu gweithlu a datblygu addysgwyr y dyfodol.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy: Gwefan y Brifysgol Agored

We currently have students in **Maths**, **Science**, and **English** who are seeking opportunities at your school! If you would like more information, please contact us at Wales-PGCE@open.ac.uk

**Benefits to Students**

✔ Designed for TAs, HLTAs, and Technicians already working in schools.

✔ Flexible training—earn a salary whilst studying.

✔ Welsh Government training grant to support study costs.

**Benefits to Schools**

✔ Salary grants available for secondary and primary schools

✔ Access to professional development, research projects, mentoring, and coaching.

✔ Helps schools diversify their workforce and develop future educators.

Visit our website to find out more: OU Website

# Digwyddiadau a Datblygiad Proffesiynol | Events and Professional Development

## 🗓 Nodyn atgoffa i roi eich Briffiau Blynyddol yn y dyddiadur!

Mae ein **sesiynau briffio blynyddol** wedi'u cynllunio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai sy'n cefnogi myfyrwyr ar raglen **TAR (Cymru)** — gan gynnwys arweiniad ymarferol, diweddariadau allweddol, a chyfle i ofyn cwestiynau 

P'un ai ydych chi'n **fentor**, **cydlynydd ysgol**, neu'n **diwtor ymarfer**, bydd y sesiynau hyn yn cynnwys gwybodaeth hanfodol ar gyfer blwyddyn academaidd **2026/27** — gan gynnwys:

- Diweddariadau ar brosesau asesu 
- Disgwyliadau lleoliadau 
- Strategaethau cefnogi myfyrwyr 

Mae pob sesiwn yn cynnig cyfle i chi deimlo'n hyderus yn eich rôl ac i gysylltu â chydweithwyr ar draws y Bartneriaeth 

**Ymunwch â'r sesiwn sy'n berthnasol i'ch rôl gan ddefnyddio'r dolenni isod.**

- Hanfodion ar gyfer Cydlynwyr Ysgol: 14 Medi 2026 @1.00pm Ymunwch yma
- Hanfodion ar gyfer Mentoriaid: 21 Medi 2026 @1.00pm Ymunwch yma
- Hanfodion ar gyfer Tiwtoriaid Ymarfer: 5 Hydref 2026 @3.30pm Ymunwch yma
- (AILADRODD) Hanfodion ar gyfer Cydlynwyr Ysgol: 12 Hydref 2026 @3.00pm Ymunwch yma

## 🗓 A reminder to get your Annual Briefings into the diary!

Our **annual briefing sessions** are designed to provide key updates, guidance, and practical information for those supporting students on the **PGCE (Wales)** programme .

Whether you are a **mentor**, **school coordinator**, or **practice tutor**, these sessions will include essential information for the **2026/27** academic year — including:

- Updates on assessment processes 
- Placement expectations 
- Strategies for supporting students 

Each session offers you the opportunity to feel confident in your role and to connect with colleagues across the Partnership 

**Please join the session relevant to your role using the links below.**

- Essentials for School Coordinators: 14 September 2026 @1.00pm Join here
- Essentials for Mentors: 21 September 2026 @1.00pm Join here
- Essentials for Practice Tutors: 05 October 2026 @3.30pm Join here
- (REPEAT) Essentials for School Coordinators: 12 October 2026 @3.00pm Join here
- Anogwyr y Gymraeg Training: 13 October 2026 @3.30pm Join here

- Hyfforddiant Anogwyr y Gymraeg: 13 Hydref 2026 @3.30pm Ymunwch yma
- (AILADRODD) Hanfodion ar gyfer Mentoriaid: 19 Hydref 2026 @3.00pm Ymunwch yma
- Hanfodion ar gyfer Mentoriaid/Cydlynwyr Ysgol (LLWYBR RHAN-AMSER): 2 Tachwedd 2026 @3.30pm Ymunwch yma
- Hanfodion ar gyfer Mentoriaid/Cydlynwyr Ysgol (LLWYBR RHAN-AMSER): 18 Ionawr 2027 @3.00pm Ymunwch yma
- Hanfodion ar gyfer Mentoriaid/Cydlynwyr Ysgol (AIL BROFIAD YSGOL): 10 Mai 2027 @2.00pm Ymunwch yma
- Digwyddiad Datblygu Tiwtor Ymarfer: 8 Mehefin 2027 @3.30pm Ymunwch yma
- Hanfodion ar gyfer Mentoriaid/Cydlynwyr Ysgol Newydd: 5 Gorffennaf 2027 @3.30pm Ymunwch yma
- Hanfodion ar gyfer Mentoriaid/Cydlynwyr Ysgol sy'n Dychwelyd: 12 Gorffennaf 2027 @3.30pm Ymunwch yma

- (REPEAT) Essentials for Mentors: 19 October 2026 @3.00pm Join here
- (PART-TIME PATHWAY) Essentials for New Mentors/School Coordinators: 2 November 2026 @3.30pm Join here
- (PART-TIME PATHWAY) Essentials for New Mentors/School Coordinators: 18 January 2027 @3.00pm Join here
- (SECOND SCHOOL EXPERIENCE) Essentials for Mentors/School Coordinators: 10 May 2027 @2.00pm Join here
- Essentials for Practice Tutor Development: 8 June 2027 @3.30pm Join here
- Essentials for New Mentors/School Coordinators: 5 July 2027 @3.30pm Join here
- Essentials for Returning School Coordinators/Mentors: 12 July 2027 @3.30pm Join here

## Gwybodaeth a chymorth hanfodol i Ysgolion Partner | Essential information and support for Partner Schools



### Mae'r Tîm Ymarfer

### The Practice Learning

## Dysguyn eich croesawu'n ôl!

**Croeso i flwyddyn academaidd newydd gyda Y Brifysgol Agored!**

P'un a ydych yn ymuno â ni am y tro cyntaf neu wedi cefnogi ein hathrawon dan hyfforddiant o'r blaen, rydym wrth ein bodd yn gweithio gyda chi ac yn diolch i chi am eich ymrwymiad parhaus i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.

Cofiwch fod **Tîm y Bartneriaeth yma i'ch cefnogi drwy gydol y flwyddyn**, felly mae croeso i chi gysylltu â ni os oes angen unrhyw arweiniad neu gymorth arnoch.

### Y Tîm o Amgylch yr Athro dan Hyfforddiant

Fel rhan o'r tîm sy'n cefnogi eich athro dan hyfforddiant, rydych yn chwarae rhan hanfodol yn ei **daith Ymarfer Dysgu** .

Roedd yr e-bost cychwynnol a gawsoch yn cynnwys manylion cyswllt eich athro dan hyfforddiant, y Tiwtor Cwricwlwm a'r Tiwtor Ymarfer. Rydym yn eich annog i gadw manylion **'Y Tîm o Amgylch yr Athro dan Hyfforddiant'** wrth law ac i gysylltu ag aelodau'r tîm yn uniongyrchol pryd bynnag y bydd angen cymorth.

### Gwybodaeth i Fentoriaid a Mynediad at PebblePad

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein hathrawon dan hyfforddiant yn cael y cymorth gorau posibl yn ystod eu lleoliadau Ymarfer Dysgu .

Byddem felly'n ddiolchgar pe gallai **Cydlynwyr Ysgol rannu'r Ffurflen Gwybodaeth i Fentoriaid yn uniongyrchol â mentoriaid**. Bydd cwblhau'r wybodaeth hon yn ein galluogi i baru mentoriaid â chyfrif **PebblePad** yr athro dan hyfforddiant

## Team Welcomes You Back!

**Welcome to a new academic year with The Open University!**

Whether you are joining us for the first time or have supported our student teachers previously, we are delighted to be working with you and thank you for your continued commitment to supporting their professional development.

Please remember that the **Partnership Team is here to support you throughout the year**, so do not hesitate to get in touch if you need any guidance or assistance.

### Team Around the Student

As part of the team supporting your student teacher, you play a vital role in their **Practice Learning journey**.

The initial email you received included contact details for your student teacher, Curriculum Tutor and Practice Tutor. We encourage you to keep these **'Team Around the Student'** details readily available and to contact members of the team directly whenever support is needed.

### Mentor Information & PebblePad Access

Effective communication is essential to ensuring our student teachers receive the best possible support during their Practice Learning placements.

We would therefore be grateful if **School Coordinators could share the Mentor Information Form directly with mentors**. Completing this information enables us to match mentors to the appropriate student's **PebblePad account** well in advance of the first deadline.

**Complete the Mentor Information Form**

### Essential Training

priodol ymhell cyn y dyddiad cau cyntaf.

 **Cwblhewch y Ffurflen Gwybodaeth i Fentoriaid**

##  Hyfforddiant Hanfodol

Mae'n ofynnol i Gydlynwyr Ysgol, Mentoriaid a Thiwtoriaid Ymarfer gwblhau eu sesiynau hyfforddi perthnasol. Mae'r sesiynau hyn yn darparu gwybodaeth bwysig am **ofynion y rhaglen, disgwyliadau Ymarfer Dysgu a'r cymorth sydd ar gael i athrawon dan hyfforddiant**.

Er mwyn ein helpu i gadw cofnodion cywir, gofynnir i bawb sy'n cymryd rhan gwblhau **Ffurflen Cofnod Hyfforddiant**, a fydd yn cael ei rhannu yn ystod y sesiwn.

Os na allwch fynychu'r sesiwn fyw ac yn cwblhau'r hyfforddiant yn anghydamserol, gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r ffurflen sydd wedi'i chysylltu ar ddiwedd y cyflwyniad.

##  Adnoddau Allweddol

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i'ch cefnogi drwy gydol y flwyddyn academaidd, yn llyfr gwaith pob athro dan hyfforddiant yn y **Pasbort Dysgu Proffesiynol** ac ar ein **Gwefan Ysgolion Partner**.

 **Ewch i wefan Adnoddau a Hyfforddiant Ysgolion Partner**

##  Sesiynau Galw Heibio Wythnosol

Oes gennych chi gwestiwn neu oes angen rhywfaint o gyngor arnoch? Mae aelodau o Dîm y Bartneriaeth ar gael yn ein sesiwn galw heibio wythnosol:

 **Bob dydd Llun**
 **3:30pm–4:00pm**

Nid oes angen archebu – ymunwch â'r sesiwn os oes rhywbeth yr hoffech ei drafod.

School Coordinators, Mentors and Practice Tutors are required to complete their respective training sessions. These sessions provide important information about **programme requirements, Practice Learning expectations and the support available to student teachers**.

To help us maintain accurate records, all participants are asked to complete a **Training Record Form**, which will be shared during the session.

If you are unable to attend live and complete the training asynchronously, please ensure that you complete the form linked at the end of the presentation.

##  Key Resources

A range of resources is available to support you throughout the academic year, both within each student teacher's workbook in the **Professional Learning Passport** and on our **Partner School Website**.

 **Visit the Partner School Resources and Training website**

##  Weekly Drop-In Sessions

Have a question or need some advice? Members of the Partnership Team are available at our weekly drop-in session:

 **Every Monday**
 **3:30pm–4:00pm**

There is no need to book – simply join the session if there is something you would like to discuss.

 **Join the weekly drop-in session**

##  Thank You for Your Support

Thank you for your ongoing support and partnership. We look forward to working closely with you throughout the year and, together, supporting our student teachers to become

[Ymunwch â’r sesiwn galw heibio wythnosol]

## Diolch am Eich Cefnogaeth

Diolch am eich cefnogaeth a’ch partneriaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at weithio’n agos gyda chi drwy gydol y flwyddyn ac, ar y cyd, at gefnogi ein hathrawon dan hyfforddiant i ddod yn **ymarferwyr hyderus, myfyriol ac effeithiol**.

**Cofion cynnes,**
*Y Tîm Dysgu Proffesiynol*

**confident, reflective and effective practitioners**.

**Kind regards,**
*The Professional Learning Team*

# Cysylltwch â ni | Contact us




**Tîm TAR Cymru**

**e:** TAR-Cymru@open.ac.uk
**g:** open.ac.uk/wales/cy
**c:** Y Brifysgol Agored yng Nghymru, 18 Heol y Tollty, Caerdydd, CF10 1AP
**o:** Dydd Llun-Dydd Gwener, 08.30–17.00


**Os oes gennych ymholiad y byddai'n well gennych ei drafod dros y ffôn, anfonwch e-bost atom gyda disgrifiad byr o'ch ymholiad ynghyd â'ch rhif ffôn, a byddwn yn trefnu galwad yn ôl.**


**PGCE Wales Team**

**e:** Wales-PGCE@open.ac.uk
**w:** open.ac.uk/wales/en
**a:** The Open University in Wales, 18 Custom House St, Cardiff, CF10 1AP
**hrs:** Monday–Friday, 08.30–17.00


**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg ac ni fydd gohebu gyda ni yn Gymraeg yn arwain at oedi.**

We welcome correspondence in Welsh and in English and corresponding with us in Welsh will not lead to delay.

You received this email because you signed up on our website or made a purchase from us.

Unsubscribe

The Open University is incorporated by Royal Charter (RC 000391), an exempt charity in England & Wales and a charity registered in Scotland (SC 038302). The Open University is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority (FCA).